

GWANWYN 2026

RHIFYN 34

ubc.cymru

UBC
BUW

# Y Negesydd

**Diolch i Judith!**

**Cenhadaeth: Dilyn yr Alwad**

**Hyfforddiant Disgyblion Cenhadol**

**Esgyn+** *a mwy....*

# GAIR golygyddol

GWANWYN 2026

## CYNNWYS

RHIFYN 34


1 Clawr

2 Gair Golygyddol

3 Cenhadaeth: Dilyn Ei Alwad

4 Sul Dathlu Henaint

5 Diolch i Judith

6 Newyddion UBC

7 Newyddion ar draws y Byd

8 Dod i nabod... Dot Tyler



*Cynhyrchir Y NEGESYDD dair gwaith y flwyddyn gan Undeb Bedyddwyr Cymru. Serch hynny, ni ddylid cymryd safbwyntiau a fynegir yn y cylchgrawn fel petaent yn cynrychioli barn swyddogol yr Undeb ar unrhyw fater.*


Yn y rhifyn arbennig hwn o'r Negesydd, dathlwn wasanaeth y Parch. Judith Morris fel Ysgrifennydd Cyffredinol UBC dros 11 mlynedd. Rhown ddiolch arbennig iddi yn y rhifyn hwn (tud.5). Ar achlysur ei hymddeoliad ym mis Ebrill, clywn hefyd rai o'i myfyrdodau wrth iddi edrych yn ôl dros ddegawd a mwy - ac ystyried y newidiadau, heriau ac anogaethau sydd wedi marcio'r cyfnod...



"Yn ystod mis Medi 2014 cefais gyfweliad ar gyfer swydd Ysgrifennydd Cyffredinol Undeb Bedyddwyr Cymru. Rwy'n cofio'n dda wynebau croesawgar a charedig y panel cyfweld wrth imi geisio ymateb i'r cwestiynau heriol. Er nad wyf yn cofio pob dim a ofynnwyd imi y diwrnod hwnnw, mae un cwestiwn yn aros yn y cof, sef "Ble fydd yr Undeb ymhen deng mlynedd?" Sut wnes i ymateb? Wel, a bod yn onest, stryffaglais drwy ryw fath o ateb cwbl annigonol!

Ond, a hithau bellach yn 2026, mae modd ateb y cwestiwn erbyn hyn. Er bod nifer ein heglwysi a'r aelodaeth yn llai mae yna egni newydd ar waith a mynegiannau gwahanol o genhadaeth wedi cael eu sefydlu. Mae'r tîm yn y swyddfa wedi cynyddu a mwy o gymorth felly ar gael i'n heglwysi. Mawr obeithiaf y bydd creu y Sefydliadau Elusennol Rhanbarthol yn fodd i sbarduno gwaith cenhadol yn ein Cymanfaoedd. Diolch am waith newydd Esgyn gyda phlant a phobl ifainc ac am y gwaith sy'n parhau yng Nghartref Glyn Nest gyda'r henoed.

Er mai prin yw'r ymgeiswyr ar gyfer y weinidogaeth, mae Duw wedi parhau i alw gweinidogion a gweithwyr dros y blynyddoedd i wasanaethu ym mhob un o'r Cymanfaoedd. Mae'r berthynas rhwng yr Adran Gymraeg a'r Adran ddi-Gymraeg wedi cryfhau a'r cydweithio yn hwylus fel a welwn yng nghyfarfodydd y Cyngor Unedig. Profwyd hwylustod arbennig o gynnal cyfarfodydd drwy gyfrwng Zoom, megis Oedfa Ilston a'r cyfarfodydd misol gyda'r gweinidogion.

Felly wrth imi ffarwelio â gwaith y swyddfa, y Cymanafoedd a'r Eglwysi hoffwn ddiolch am y cyfle, y cydweithio hapus, ac am bob cefnogaeth a dderbyniais. Dymunaf fendith gyfoethog Duw ar fy olynydd ardderchog, y Parchg Simeon Baker, a gwn y byddwch yn dangos yr un gefnogaeth gadarn iddo yntau wrth iddo arwain yr Undeb drwy'r bennod nesaf yn ei hanes."

*O.N Darllenwch ymlaen i glywed hefyd am: gyflwyno'r Parch. Simeon Baker fel Ysgrifennydd Cyffredinol newydd UBC, galwad dwy i weinidogaeth genhadol yng Nghymru, lansio Sul Dathlu Oed, gwaith EBF yn y Dwyrain Canol, cyfleoedd newydd i bobl ifanc, a llawer mwy!*

*Yng Nghrist,*

**Judith Morris** (Ysgrifennydd Cyffredinol UBC)
**Sioned Graves** (Swyddog Cenhadaeth a Chyfathrebu)

# CENHADAETH: *Dilyn Ei Alwad*

Dros y ddwy flynedd ddiwethaf, bu hi'n hyfryd croesawu **nifer o aelodau newydd** i'n **Cymuned Ddysgu Gweinidogaeth Cenhadol** newydd. Wrth i ni glywed eu straeon, cawn ein hatgoffa unwaith eto sut mae'r Arglwydd yn parhau i alw pobl i waith ei Deyrnas yma yng Nghymru. Yn y rhan gyntaf hon, clywn straeon Ruth a Donna...





### Stori Ruth - Yr Alwad i Dŷ Ddewi

Dechreuodd Ruth ei thaith i'r weinidogaeth yng Nghymru tra'i bod yn astudio mewn Coleg Beiblaidd yn Horsham, Gorllewin Sussex. Aeth Ruth i'r Coleg ar ôl profi 'hunlosg' (burnout) fel gweithiwr Plant ac Ieuenctid prysur. Rhanna Ruth: "Fe es i trwy amser anodd yn bennaf achos fy mod i'n caru 'gwneud'... a doeddwn i ddim yn gwerthfawrogi pwysigrwydd gweddi o gwbl."

Yn ystod ei hamser yn adfer yn y Coleg, fe wnaeth rhieni Ruth symud i Dŷ Ddewi. Pan wnaeth Ruth ymweld â nhw, cyfarfu â grŵp o bobl o blaniad eglwys Fedyddiedig newydd o'r enw 'Y Groesfan'.

> *Doedd yn llythrennol ddim bwriad [gan Ruth] i symud i Dŷ Ddewi*

Pan ddychwelodd i barhau gyda'i hastudiaethau yn Horsham, fe ddechreuodd pethau newid. Ei geiriau hi oedd: "doedd yn llythrennol *ddim bwriad* gen i i symud i Dŷ Ddewi". Er hynny, fe ddigwyddodd rhywbeth y gallai hi ond esbonio fel "Duw-foment", a hynny mewn cwrdd gweddi. Yn sydyn, ac yn gryf iawn – fe gafodd Ruth deimlad cryf o gariad Duw ar gyfer pobl Tŷ Ddewi, a daeth yr adnod hwn iddi: "Ni'th adawaf fyth, ac ni chefnaf arnat." (Hebreaid 13:5). Gwelodd hefyd lun clir o fodrwy yn mynd ar law – fel yn Haggai 2:23 – a synnwyr clir y dylai symud i Dŷ Ddewi.

Ychydig yn ddiweddarach, fe wnaeth ffrind oedd yn gweddïo dros Ruth ddweud wrthi ei bod wedi gweld llun yn ei meddwl o Dduw yn rhoi modrwy ar law Ruth – a bod Duw yn dweud wrthi hi "Ni'th adawaf fyth, ac ni chefnaf arnat". Gofynnodd y ffrind a oedd hyn yn golygu rhywbeth iddi. Fe wnaeth ffrind arall oedd yn gweddïo drosti rannu ei bod wedi teimlo bod Duw yn galw Ruth i wneud rhywbeth penodol, ac y "dylai ei wneud"!

Yn y pen draw, fe wnaeth Ruth ildio i'r synnwyr cryf bod Duw yn ei galw. Ymunodd hi ag eglwys ifanc Y Groesfan a helpu cyd-arwain yr eglwys yn wirfoddol rhwng 2011 a 2014, yn ogystal â gweithio'n lleol mewn nifer o swyddi er mwyn dod i adnabod y gymuned yn well.

Er bod Ruth wedi camu'n ôl o'r weinidogaeth mewn ffordd uniongyrchol yn yr eglwys ar hyn o bryd – ar ôl teimlo bod Duw wedi gofyn iddi basio ymlaen baton arweinyddiaeth yn Y Groesfan – disgrifia sut y mae'r tymor presennol hwn wedi bod yn ffrwythlon o ran cenhadaeth!
Mewn cam ffydd, fe wnaeth Ruth leihau ei dyddiau gwaith i dridiau yr wythnos, ac mae hyn wedi rhoi mwy o amser iddi ymwneud â'r gymuned leol. Fel nifer ohonom, bu'n darganfod fod nifer yn fwy ac yn fwy agored i drafod materion ffydd, a chafodd nifer o sgyrsiau arwyddocaol yn ystod y cyfnod hwn. Dychwelodd Ruth hefyd i alwad gyntaf gweddi, ac mae hi'n parhau i fynd ar deithiau gweddi o leiaf ddwywaith yr wythnos yn yr ardal leol.

> *"Ni'th adawaf fyth, ac ni chefnaf arnat." (Hebreaid 13:5).*

Golygai'r newid tymor hefyd fod Ruth wedi medru ymwneud gyda Hyfforddiant Gweinidogion Cenhadol UBC, ac mae'n parhau i archwilio ei galwad i genhadaeth – ble bynnag y bydd Duw yn ei harwain!

### Hanes Donna - Galwad i'r Gair, ac i Genhadaeth!

Mae Donna yn hanu o Sir Benfro, wedi'i magu ym Mwlch y Groes, Crymych. Mynychodd Donna yr ysgol Sul a'i bedyddio yng Nghapel Blaenffos cyn dychwelyd i gapel gwreiddiol y teulu: Capel y Bedyddwyr Star. Magwyd Donna ar aelwyd




y capel – ond rhanna gyda ni am daith bersonol ffydd a galwad y mae wedi bod arni dros y blynyddoedd diwethaf. Teimlodd Donna synnwyr o alwad gryf yn bennaf wrth iddi ddarllen rhannau o'r Beibl. Rhai o'r geiriau a darodd Donna yn gryf oedd geiriau'r Arglwydd Iesu yn Luc 23:46 pan ddywed ar y groes "yn dy ddwylo y cyflwynaf fy ysbryd'. Er mai geiriau'r Arglwydd yw y rhain i'r Tad – teimlodd Donna fod gwahoddiad iddi hi weddïo'r un geiriau dros ei bywyd hi ei hunan. Teimlodd alwad i roi ei bywyd yn llwyr i ofal Duw. Darlleniad arall pwysig a gyfrannodd at yr ymdeimlad o alwad oedd Ioan 2:1-7 pan ddisgrifia Ioan weledigaeth y saith seren a chanhwyllbren. Clywodd Donna ddehongliad ysbrydoledig ohono a gyffyrddodd â hi: mai ni, fel Cristnogion yw'r sêr yn nwylo Crist, a bod gwahoddiad i ni dywynnu Ei oleuni ymhlith y cenhedloedd. Gyda'r ymdeimlad hwnnw o alwad, mae Donna wedi bod yn archwilio ei galwad i weinidogaeth genhadol. Rhan o'i hangerdd a'i brwdfrydedd wrth edrych ymlaen yw bod Cristnogion yn dod i ddeall eu bod i fod yn ddrych o waith yr Arglwydd, a bod galwad i ni ymestyn allan i rai sydd y tu allan i gymuned ffydd. Gwêl hefyd bwysigrwydd ffydd o ran iechyd meddwl – ac mae am archwilio sut i annog eraill i weld ffydd fel rhan hollol allweddol o'n cymunedau.

*Teimlodd Donna fod gwahoddiad iddi hi weddïo'r un geiriau dros ei bywyd hi ei hunan.*

.



# SUL DATHLU *Henaint*

Yn ystod ei llywyddiaeth, bu Llywydd UBC (Adain Ddi-Gymraeg) **Parch. Maggie Rich** yn hyrwyddo pwysigrwydd yr henoed yn ein plith. Yma, clywn am brosiect newydd hyfryd: diwrnnod i nodi ac i ddathlu ffyddlondeb credinwyr hŷn yn ein plith, o'r enw **'Sul Dathlu Henaint'.** Clywn hefyd fyfyrdodau ar arwyddocâd y diwrnod hwn gan y Parch. Peter Thomas...

**"Dathlu Henaint": Parch. Maggie Rich**

Ychydig flynyddoedd yn ôl, fe wnaeth y Parch. Peter Thomas gyflwyno Prosiect Caleb; yn ffocysu ar henoed. Yn ystod fy llywyddiaeth yn yr Adain Ddi-Gymraeg, fe fûm i hefyd yn ffocysu ar henoed, yn ein heglwysi ac yn ein cymunedau. Eleni, buom ni'n ffodus i redeg prosiectau peilot ar gyfer UBC, o'r enw "Celebrating Age / Dathlu Henaint." Fe ddewisom ni Hydref y 5ed, gan mai hwnnw yw'r diwrnod y mae Age Cymru yn ei benodi fel "Sul Arian".

Fe wnaeth y bobl hŷn yn y dair eglwys ble'r ydw i yn weinidog – ac Eglwys Rydd sydd yn ymuno â ni yn gyson – ddod at ei gilydd brynhawn Sul ar gyfer gwasanaeth naws caffi. Fe wnaethom ni ystyried thema "ffyddlondeb": o ran eu ffyddlondeb mewn gweddi a gwasanaeth dros y blynyddoedd, a ffyddlondeb Duw. Fe edrychon ni ar hanes Simeon ac Anna yn y Deml: ffyddlondeb Duw yn ei ddewid i Simeon y byddai'n wir yn gweld Meseia Duw, a ffyddlondeb Anna yn ymprydio ac yn gweddïo dros sawl blwyddyn.

Darllenwyd cerdd Eleanor Farjeon "Mrs Malone": y gwasanaeth i'r rhai mewn angen sydd yn aml yn parhau yn dawel ac heb sylw, ond y mae Duw yn ei weld. Fe ystyrion ni hefyd weinidogaeth ieuenctid, a phwysigrwydd y "gwreiddiau" hyn o fewn yr eglwys i gynnal a chryfhau y weinidogaeth honno.

Ar ôl y gwasanaeth, gweinwyd yr henoed gyda the prynhawn llawn gan y rhai iau, a rhannwyd straeon o amgylch y ford. Mae ein henoed mor bwysig, ac mae'n dda cymryd y cyfle i ddiolch iddyn nhw, ac i ddangos gwerthfawrogiad am yr hyn y maent wedi ei wneud yn y gorffennol - ac mewn sawl achos yn parhau i'w wneud.

*"Fe ystyrion ni... bwysigrwydd y gwreiddiau hyn o fewn yr eglwys [o ran gweinidogaeth ieuenctid]."*

**Y Parch. Peter Thomas**

Y mae'r Sul hwn yn gyfle inni sylweddoli'r gwerth a'r potensial a berthyn i bawb wrth iddynt dyfu'n hŷn

– yn gyfle inni ddathlu yr hyn ydym a'r hyn y medrwn barhau i'w gyfrannu mewn cymuned ac eglwys.

Y mae Gair Duw yn rhoi gwerth ac amlygrwydd i henaint: Y mae Salm 92 adnod 13 yn ein hatgoffa: "Y maent wedi eu plannu yn Nhŷ'r Arglwydd ac yn blodeuo yng nghynteddau Duw. Rhônt ffrwyth hyd yn oed mewn henaint."  Roedd Abraham yn hen ŵr, nawdeg pedwar blwydd oed pan ddwedodd Duw wrth fe y byddai yn dod yn dad cenedl fawr – a byddai Sara ei wraig yn cenhedlu plentyn a hithau'n nawdeg dwy blwydd oed. Pan drosglwyddwyd yr awenau i Josua i arwain y genedl i mewn i wlad Canaan yr oedd yntau hefyd wedi croesi oed yr addewid a pharhaodd i arwain y genedl honno hyd nes ei farw yn 110 blwydd oed. Y mae'r Apostol Paul yn cyfeirio ato'i hun yn ei lythyr at Philemon fel "Paul, yr hen ddyn bellach" ac eto gwyddom ei fod yn dal wrthi yn brysur ysgrifennu llythyron at eglwysi Effesus, Colosia a Philipi ac yntau mewn carchar. Y mae llawer o enghreifftiau eraill o'r modd y defnyddiodd Duw unigolion ym mlynyddoedd euraidd eu bywyd i fod o wasanaeth ac i ddwyn ffrwyth yn eu henaint. Y mae proffwyd Eseia yn nodi y bydd "y rhai sydd a'i gobaith yn yr Arglwydd yn adnewyddu eu nerth. Byddant yn hedfan ar adenydd fel eryrod; byddant yn rhedeg ac ni fyddant yn flinedig, byddant yn cerdded ac ni fyddant yn llewygu." Nid yw cynhaliaeth a nerth Duw yn lleihau wrth inni dyfu'n hŷn! Gallwn barhau i fod o wasanaeth ym mlynyddoedd ein henaint oherwydd bod Duw yn rhoi'r grym a'r gallu inni wneud hynny, bydd yn ein hadnewyddu ac yn ein grymuso i ddal ati.

Mae'r Sul hwn nid yn unig yn gyfle i ddathlu henaint, ond yn her inni sydd wedi cyrraedd y tymor hwnnw mewn bywyd i ystyried y breintiau a'r cyfleoedd y mae Duw yn parhau i'w cynnig inni a'r drysau y mae ef yn dal i'w hagor yn ein hanes. Ymddiriedwn ynddo a chyfeirio'n bywydau yn glod ac yn ogoniant i'w enw.

*"Nid yw cynhaliaeth a nerth Duw yn lleihau wrth inni dyfu'n hŷn!"*

# DIOLCH i JUDITH!



Wrth i'r **Parch. Judith Morris** orffen ei rôl fel Ysgrifennydd Cyffredinol y mis Ebrill hwn, rhown ddiolch mawr iddi am ei chefnogaeth amhrisiadwy i deulu eglwysi Undeb Bedyddwyr Cymru.

Gydag ymddeoliad ein Hysgrifennydd Cyffredinol, Judith Morris, hoffwn fel Llywydd fynegi ein diolchgarwch diffuant iddi fel Undeb am ddeng mlynedd o wasanaeth ffyddlon ac arweinyddiaeth gadarn.

Yn ystod ei chyfnod fel Ysgrifennydd, mae wedi dangos ymroddiad llwyr i genhadaeth Undeb Bedyddwyr Cymru, gan weithio'n ddi-baid er lles ein heglwysi, i feithrin cydweithrediad, ac annog cenhadaeth Gristnogol o fewn ein cymunedau.

Trwy ei doethineb, ei charedigrwydd a'i ffydd, mae wedi bod yn arweinydd sy'n annog eraill i wasanaethu dros y deyrnas. Mae ei chyfraniad wedi gadael dylanwad parhaol ar fywyd yr Undeb, ac mae ei gweledigaeth wedi ein harwain drwy gyfnodau o newid ac adnewyddiad yn ein strwythurau fel Corff. Diolchwn iddi am ei hegni, ei chalon gynnes, a'r modd y mae wedi bod yn dyst ffyddlon i gariad Crist ym mhob agwedd o'i gwaith.

Dymunwn fendith Duw arni – heddwch, llawenydd, a boddhad iddi yn y sicrwydd o wybod y bu'n was ffyddlon i'r Arglwydd ac yn gyfaill triw i'r Undeb cyfan.

Diolch o galon Judith, a phob bendith i'r dyfodol.

Rob Nicholls,
Llywydd Undeb Bedyddwyr Cymru (Adran Gymraeg)



Mae hi'n teimlo'n hirach o lawer nag 11 mlynedd ers i ni eistedd o amgylch y ford yng Nghaerfyrddin yn cyfweld â Judith ar gyfer swydd Ysgrifennydd Cyffredinol UBC. Yr hyn a'm tarodd i yr adeg honno oedd y gwrando gofalus, yr ymateb cytbwys, y bwriad i gysylltu gyda'r person - a gyda'r cwestiwn.

Ers hynny, buom yn gwylio Judith yn tyfu i'r rôl: a rhoi stamp ei phersonoliaeth hi arno. Bu hi'n llawn gras yn yr amrywiol gyd-destunau y darganfu ei hunan ynddynt, a dyw hi ddim wedi colli'r gallu i fod yn agos-atoch chwaith. Rydym wedi derbyn gwir fendith o gael Judith yn gynrychiolwraig i'r Undeb, ac yn rhywun a fu'n hyrwyddo enw da Undeb Bedyddwyr Cymru. Diolchwn i Judith am y cyfan y mae hi wedi ei wneud, a gweddïwn fendith ar y cyfan y bydd hi'n parhau i wneud yn enw'r Deyrnas.

Maggie Rich, Llywydd UBC (Adran Ddi-Gymraeg)

**Ohonom ni i gyd** ar draws teulu'r Undeb.....



# NEWYDDION ar draws

## Ysgrifennydd Cyffredinol Newydd

**Hyfrydwch yw cyhoeddi bod y Parch. Simeon Baker wedi ei benodi fel Ysgrifennydd Cyffredinol newydd Undeb Bedyddwyr Cymru!**

Mae gan Simeon 35 mlynedd o brofiad gweinidogaethol ac arweinyddol mewn cyd-destun Cristnogol ar lefel lleol a chenedlaethol, a bu'n gwasanaethu'r Undeb fel Cyfarwyddwr Cenhadaeth ers 2012. Cymeradwywyd y penodiad trwy benderfyniad unfrydol Cyngor Unedig UBC a derbyniwyd cymeradwyaeth Eglwysi'r Undeb.

Fe'i magwyd yn ardal Drefach Felindre a bu'n ddisgybl yn Ysgol Ramadeg Llandysul. Ar ôl gweithio ym maes Cyfrifiaduron a TG (Technoleg Gwybodaeth), synhwyrodd Simeon alwad i'r weinidogaeth. Dilynwyd hyn gyda chyfnod yn hyfforddi a gweinidogaethu yn Ruislip, Lloegr cyn iddo ddychwelyd i Gymru i weinidogaethu yn Eglwys y Bedyddwyr Bethel, yr Eglwys Newydd.

Meddai Simeon: "Anrhydedd a braint yw cael fy mhenodi i'r swyddogaeth hon, ac rwy'n gwerthfawrogi'n ddwfn iawn cefnogaeth ac ymddiriedaeth eglwysi Undeb Bedyddwyr Cymru. Fel Bedyddwyr, wynebwn nifer o heriau, yn ogystal â chyfleoedd arbennig ar gyfer cenhadaeth a gweinidogaeth barhaol yng Nghymru. Mae hyn yn ein gwahodd i fod yn gadarn yn ein ffydd, ac yn hy yn ein gweithred."



Wrth amlinellu ei flaenoriaethau, meddai Simeon: "Yng nghanol newid, beth bynnag yw ein gweledigaeth, strategaeth neu strwythur, mae'n rhaid i ni sicrhau ein bod yn trysori ein pobl, ac yn bugeilio ein gilydd. Bydd adeiladau, strwythurau a chyllid yn mynd a dod, ond bydd cariad Duw yn parhau wrth i ni aros yn Ei gariad. Yng ngeiriau Hebreaid 10:23: "Gadewch inni ddal yn ddiwyro at gyffes ein gobaith, oherwydd y mae'r hwn a roddodd yr addewid yn ffyddlon."

*Gweddïwn bob bendith dros Simeon wrth iddo baratoi i ymgymryd â'r rôl o fis Ebril ymlaen. Gallwch weld datganiad llawn ar wefan ubc.cymru.*

## Gweddi '26: 12 Awr o Weddi Dros Gymru!

**Ar ddiwedd mis Mawrth, daethom ni i ddiwedd ein tymor newydd o weddi fel Undeb: 'Gweddi '26'...**

Ar ddiwedd yr Hydref, fe wnaeth llawer ar draws teulu eglwysi UBC deimlo bod nifer gynyddol o alwadau i weddi, yn ogystal â synnwyr cyffredinol bod yr Arglwydd am ddyfnhau ein bywyd gweddi fel teulu o gredinwyr. Y canlyniad oedd cynnal ein 'tymor gweddi' cyntaf fel UBC rhwng Ionawr a mis Mawrth. Ar y 26ain o bob mis, fe wnaeth grŵp gwahanol ymgynnull ddwywaith i weddïo - dros ein heglwysi, dros ein rhanbarthau, ein harweinwyr, a thros Gymru. Daeth y




tymor gweddi i ben gyda 12 awr o weddi rhwng 7am a 7pm ar y 26ain o Fawrth. Rydym yn falch iawn o ddweud ein bod wedi llenwi'r 12 awr gyda'n gilydd ledled Cymru – gydag oddeutu 20 o grwpiau neu unigolion gwahanol yn cymryd rhan: o weddi breifat unigol mewn tai, i ffrydiau Whatsapp eglwysi yn cael eu llenwi â gweddïau ysgrifenedig, i eglwysi yn cael eu hagor ar gyfer gweddi trwy gydol y dydd. Edrychwn ymlaen at weld ble y bydd yr Arglwydd yn mynd â ni nesaf fel Undeb wrth i ni barhau i ddyfnhau ein bywyd gweddi gyda'n gilydd!

# NEWYDD: Esgyn+

**Wrth i UBC barhau i adeiladu ar lwyddiant Esgyn (menter ieuenctid newydd UBC),** rydym yn gyffrous i rannu bod y ddarpariaeth yn ehangu eleni i oedrannau hŷn! Wedi dechrau gyda phenwythnosau i ieuenctid 11-16 oed, bydd Esgyn+ yn cael ei lansio eleni, gan gynnig penwythnosau a digwyddiadau i ieuenctid 16 oed a hŷn. Mi fydd penwythnos gyntaf Esgyn+ yn digwydd yn Nhŷ Ddewi o'r **18eg – 20fed o fis Medi.** Mi fydd y penwythnos ar gyfer ieuenctid 11-16 oed yn dychwelyd eleni hefyd i'r Ganolfan Summit, Treharris ar y **20fed – 22ain o fis Tachwedd.** *Cadwch lygaid allan am ffurflenni i archebu lle – mi fyddant ar gael yn fuan! I fynegi diddordeb cynnar, cysylltwch â esgyn@ubc.cymru*

# Hyfforddiant Disgyblion Cenhadol UBC

**Rydym yn falch iawn o allu rhannu bod UBC ar fin lansio cynllun peilot hyfforddiant newydd eleni, o'r enw'r 'Flwyddyn Cynllun Disgyblion Cenhadol'.** Daw'r cynllun hwn ychydig flynyddoedd ar ôl ein rhaglen ddiwethaf 'Tîm i Gymru', wedi i ni arsylwi llai o interniaethau yn gyffredinol. Er bod diddordeb wedi dechrau ail-ymddangos, bu newidiadau yn y gyfraith ynghylch cyfreithlondeb blynyddoedd 'gap' traddodiadol. Mae eleni yn gyfle amserol i dreialu cynllun 'hyfforddiant' newydd cyffrous: gydag un Flwyddyn Cynllun Disgyblion Genhadol wedi'i lleoli yn Eglwys y Bedyddwyr Caersalem (Iaith Gymraeg), a'r ail yng Nghymanfa Bedyddwyr Gwent (iaith Saesneg). Mi fydd y ddau yn rhedeg o fis Medi 2026. *Os ydych chi'n nabod pobl ifanc a chanddynt galon dros genhadaeth neu ddiddordeb yn y weinidogaeth – cyfeiriwch nhw at carwyn@ubc.cymru! Croesewir ceisiadau tan y 19eg o Fehefin.*

# EBF: Gobaith mewn Rhyfel

**Rydym yn falch o rannu gyda chi effaith haelioni ein heglwysi a'n haelodau yn Wcráin, yng nghanol rhyfel.** Mae'n bleser gennym cyhoeddi ein bod wedi codi cyfanswm o £8,031.02 dros fisoedd y gaeaf ar gyfer ein hapêl ar y cyd gyda EBF (European Baptist Federation): **'Hope Heats'.** Mae'r arian wedi mynd yn uniongyrchol at gefnogi eglwysi yn Wcráin a fu'n ymddwyn fel llochesi, mannau diogel, a chanolfannau cynnes dros y gaeaf, ac wrth i'r rhyfela barhau.

Fel ymateb i'n rhoddion, rydym wedi cael ein partneru gyda phedair eglwys yn Wcráin. Yr eglwysi hynny yw: The Ark of Salvation, Evangelical Christian Baptist Church 'Golgotha', Evangelical Christian Baptist Church of the City of Khmilnyk, The Ark of Hope. Gallwch weld mwy o

# UBC: Arwyddion Addawol

**Er bod Cymdeithas y Beibl wedi gorfod tynnu'n ôl adroddiad 'Y Diwygiad Tawel' yn ddiweddar** am i broblemau ddod i'r amlwg gyda'r data gwreiddiol a ddarparwyd gan YouGov, mae'n ymddangos bod rhesymau yn eu hadroddiad diweddaraf "The Quiet Revival: One Year On" (Y Diwygiad Tawel: Blwyddyn yn Ddiweddarach) i gredu bod yna arwyddion addawol o dwf yn y ffydd Gristnogol yn y DU o hyd. Fel teulu o eglwysi, rydym wedi gweld cynnydd mewn bedyddiadau o 2025-26, yn ogystal â chynnydd bach yn nifer y plant sy'n mynychu ein heglwysi. Fel gydag ystadegau yn gyffredinol pan ddaw hi i'n ffydd, rydym yn dal y niferoedd a'r adroddiadau hyn yn ysgafn - ond yn parhau i edrych at y Duw sydd wedi addo yn ei air i adeiladu ei Eglwys - yma yng Nghymru ac ym mhob amser a lle!




*Peidiwch ag anghofio archebu lle yng nghynhadledd flynyddol yr Undeb yn y Tabernacl, Caerdydd yr haf hwn! Mwy o wybodaeth ar: ubc.cymru*

# NEWYDDION ar draws y Byd

fanylion am yr eglwysi hynny ar ein wefan. Gofynnir i ni gadw'r bedair eglwys a'r gweinidogion yn ein gweddiau. *Diolch o galon i bob eglwys ac unigolyn sydd wedi rhoi mor hael at yr apêl!*

Mae poen a dioddefaint yn anffodus yn parhau wrth i wrthdaro yn y Dwyrain Canol edrych yn debygol o barhau mewn gwahanol ffyrdd. Mae gennym y fraint o allu sefyll eto gyda'n brodyr a'n chwiorydd yng Nghrist sy'n gweinidogaethu'n uniongyrchol i'r rhai yr effeithir arnynt gan y gwrthdaro yn y Dwyrain Canol trwy apêl newydd EBF: 'For Every Life Affected '. Gallwch ddod o hyd i fwy o wybodaeth am eu gwaith yn y rhanbarth, sut y gallwch weddïo a sut y gallwch chi roi i'r apêl ar eu wefan: ebf.org.uk

# *Dod i nabod...*
# Dot Tyler



Eleni, byddwn ni'n clywed oddi wrth **Dot Tyler** sydd yn arwain **24/7 Prayer** ym Mhrydain yn ein cynhadledd flynyddol: Momentum. Yma, clywn ychydig o'i hanes, gan gynnwys ei thaith ffydd, a'r gwersi y mae hi wedi eu dysgu am weddi...

**Dywedwch ychydig wrthym amdanoch chi eich hun!**

Fy enw i yw Dot! Ces i fy magu ym Manceinion, ond bues i'n byw yng Nghaerdydd gyda fy ngŵr a'm teulu ers 13 mlynedd bellach. Dwi *yn* teimlo brwydr fewnol ar ddiwrnodau rygbi, ond dwi'n angerddol iawn dros Gymru! Dwi'n teimlo i mi gael fy "mabwysiadu" fel Cymraes mewn sawl ffordd (*dwi wrthi'n dysgu Cymraeg!*). Mae gen i'r fraint fawr o arwain tîm 24/7 Prayer yma ym Mhrydain. Ein gweledigaeth yw gweld yr eglwys yn cael ei hadfywio; cynnydd mewn gweddi, cenhadaeth a chyfiawnder yn ein plith; ac i'n diwylliant gael ei drawsnewid i fod yn debycach i Deyrnas Dduw!

**Dywedwch ychydig wrthym am y daith sydd wedi dod â chi i ble rydych chi heddiw...**

Mae'n fraint fawr eistedd yma a gallu gweld llaw Duw ym mhob cam o'm bywyd hyd yma. Ces i fy magu mewn teulu nad oeddent yn Gristnogion, ond roedden nhw'n credu, er mwyn dysgu plentyn i fod yn dda, bod rhaid eu hanfon i'r Ysgol Sul gan mai 'dyna'r peth iawn i'w wneud'! Dwi'n credu nad fi yw'r unig un sydd wedi cael y profiad hwnnw! Cyrhaeddais i'r oedran fawr o 10 neu 11 oed a phenderfynu nad oeddwn i'n hoff iawn o'r drefn mwyach. Felly dysgu dweud celwydd wrth fy rhieni am yr hyn roeddwn i'n ei wneud ar y Sul oedd y drefn wedi hynny! Fodd bynnag, dwi'n cofio bod yn 16 oed a chyrraedd pwynt yn fy mywyd lle nad oeddwn i'n hapus iawn gyda'r person oeddwn i. Fe wnaeth ffrind hyfryd y gwnes i gwrdd â hi yn yr Ysgol Sul fy ngwahodd i'n ôl. Mae arna i ddyled iddi hi am gymaint o'm taith ffydd - rhywun na roddodd hi'r gorau i weddïo, na rhoi'r gorau i wahodd.

Mae'r Beibl yn llawn enghreifftiau o ddyfalbarhau, dyfalbarhau, dyfalbarhau.... a wedyn troeon sydyn! Ces i "dro sydyn"! Gwahoddodd y ffrind hwn fi'n ôl i rywbeth yn yr eglwys. Oherwydd nad oedd dim byd arall gen i i'w wneud ar y pryd, fe es i! Clywais i neges Iesu, a chlywais i'r gwahoddiad mai ym mherson Iesu y byddwn i'n darganfod yn iawn pwy ydw i! Ac yn y lle hwnnw, rhoddais fy "ie" llawn i'r Arglwydd! Es i i'r brifysgol, a darganfod fod gweddi yn gallu bod yn fwy na litwrgi neu rywbeth ar y Sul. Es i i Ystafell Weddi 24-7 ar fy nghampws ym Mhrifysgol Leeds. A des i ar draws y syniad bod Duw eisiau cwrdd â fi, yn bersonol - Dot! Yn fy ngeiriau fy hun, yn f'amser fy hun... a dw i erioed wedi edrych yn ôl ers hynny!

**Sut fyddech chi'n annog y rhai sydd am ddyfnhau eu bywyd gweddi?**

Y peth cyntaf y mae'n rhaid i mi fy atgoffa fy hun o hyd yw nad oes unrhyw weddïwyr proffesiynol! Yr hyn glywais i'n aml wrth dyfu i fyny yw bod gweddi yn "ddyletswydd". Mae'n ddyletswydd y dylwn ei gyflawni am i Iesu farw ar y groes i mi allu cael perthynas â Duw. Ac mae harddwch yn hynny... Mae gen i gadair benodol y byddaf yn mynd ati yn y bore, a dyna fy nghadair 'lonydd'! Ond, rhywbeth dwi hefyd yn dysgu yw bod gwahoddiad i ni fod yn fwriadol ddi-frys - a gorffwyso yn Ei bresenoldeb. Rhywbeth dwi'n ceisio ei wneud yn y munudau hynny ar ddechrau'r dydd yw ceisio cofio mai tuag at wyneb yr Iesu y dylai fy osgo fod mewn gweddi. Rhywbeth arall rydw i hefyd yn ei ddysgu yw bod yna bobl sydd wedi *arfer presenoldeb Duw*, ac rydych chi'n gweld hynny arnyn nhw! Dyna ddymuniad fy nghalon - wrth i mi dreulio mwy o amser mewn gweddi, yn fy mywyd bob dydd, ac yn fy amseroedd tawel - y byddai pobl yn synhwyro presenoldeb Duw yn fy mywyd.

**Sut hoffech chi herio neu annog eglwysi ledled Cymru yn ein dydd ni?**

Rwy'n credu fy anogaeth fyddai fy mod i'n gweld Duw yn symud mewn ffyrdd nad ydw i wedi Ei weld yn symud o'r blaen! Rwy'n bersonol yn credu bod ton yn dod yn ein cenedl – ton o Dduw ar waith. Ond, dydw i ddim eisiau edrych yn ôl ar fy mywyd mewn blynyddoedd i ddod a dweud, "Fe wnes i ei golli e!". Dydw i ddim eisiau hynny ar eich cyfer chi, a dydw i ddim eisiau hynny ar gyfer priodferch Crist - yr Eglwys - chwaith. Mae 'na hen ddywediad: ein bod ni'n dod at Iesu gyda phengliniau budr a bochau gwlyb. Mae gennym fochau gwlyb oherwydd ein bod wedi gweld beth sy'n digwydd yn ein byd ac mae wedi ein hala ni at ddagrau. Ac mae gennym bengliniau budr oherwydd ein bod wedi syrthio wrth draed Iesu a gofyn: *beth alla i ei wneud*? Rwy'n credu, pan fyddwn ni'n dod ac rydyn ni'n penlinio ac rydyn ni'n wylo mewn gweddi... mae'r Arglwydd hefyd yn rhoi rhywbeth i ni ei wneud: i chwarae ein rhan yn y Deyrnas. Ac felly, fy her fyddai: O, Briodferch Crist – gadewch i ni gael pengliniau budr a bochau gwlyb!

**Cysyllt-wch â ni!**
0345 222 1514
post@ubc.cymru
Parc Dewi Sant, Heol Ffynnon Job, Caerfyrddin SA31 3HB